

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 8fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Arwel Davies, Rhys Jones, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles a Huw Edwards.

Cydymdeimlwyd a'r clerc yn dilyn ei phrofedigaeth diweddar,

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

ii) Datgan Buddiant – gweler cais cynllunio Ty'n y Sarn, Llidiardau.

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.

a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.

i) Ffôs ger Cynythog, Llidiardau – nid oedd y clerc wedi derbyn ymateb i'r cwyn â anfonwyd ym mis Gorffennaf felly cytunwyd i ail gysylltu a Chyngor Gwynedd a gadael iddynt wybod fod car arall wedi mynd i'r ffôs.

ii) Ffordd heibio Mynydd Nodol, Arenig - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi rhoi cyfarwyddyd i'r gweithlu i lanhau'r ffosydd a'r culvert ac atgyweirio'r grid gwartheg,

iii) Ffordd o Groeslon i gyfeiriad Pentre – roedd cyfarwyddyd wedi mynd i'r gweithlu i lanhau'r ffos.

vi) Dŵr Cymru, pryder am doriad cyflenwad dŵr i ffermydd yr ardal yn ddiweddar – cafwyd cadarnhad nad oedd ganddynt gyfrifoldeb statudol penodol i ddarparu dŵr i anifeiliaid a'u blaenoriaeth oedd cynnal ac adfer cyflenwadau dŵr yfed i gwsmeriaid. Er hynny, byddant yn ystyried ceisiadau am gymorth fesul achos, gan ystyried natur y digwyddiad, cyfyngiadau gweithredol ac adnoddau sydd ar gael.

b) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cyngorau Cymuned a Thref.

Cafwyd diweddariad am y prosiect gan y clerc.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Ymgynghoriad Rhwydwaith Teithio Llesol - cerdded, olwyno a beicio Gwynedd

b) Un Llais Cymru.

i) Nodyn Datblygu Ymarfer 29: Rôl y Cadeirydd yn ystod Cyfarfodydd.

ii) Grant Llywodraeth Cymru.

iii) Cronfa Ynni Gwyrdd Gwynedd – Cronfa Twf Lleol

c) Amrywiol.

i) Triathlon y Bala 2026, 6/09/26.

ii) Ymddeoliad SCCH Iwan Roberts – derbyniwyd gair o ddiolch am y gefnogaeth a gafwyd yn ystod ei gyfnod yn y Bala.

v) Ceisiadau Cynllunio.

NP5/72/252A – Adeiladu storfa amaethyddol. Ty'n y Sarn, Llidiardau (Rhys Jones yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

Nid oedd y cyngorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol ac felly cefnogwyd y cais.

vi) Materion Ariannol.

a) Derbyniadau.

Derbyniwyd ail randal y Praesept a chyfraniad Pwyllgor Neuadd Parc tuag gost y lleni llwyfan newydd.

b) Taliadau.

Cytunwyd i dalu Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol).

c) Ceisiadau Ariannol.

Derbyniwyd ceisiadau gan Radio Ysbyty Gwynedd a Cerebral Palsy Cymru a chytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

- i) Dŵr yn rhedeg i ffwrdd o'r ffordd i ardd Tŷ'r Neuadd, Maesywaen.
- ii) B4391 yn Llan Ffestiniog – y ffordd yn anwastad iawn yn dilyn y gwaith gan Scottish Power.
- iii) Dŵr yn hel ar y ffordd rhwng Craig yr Ieir a Bryn Moel Uchaf, Parc.
- iv) Gofynnwyd am ddiweddariad ynglyn â thrwsio ffordd Cwm Tylo, a ger Preswylfa, Parc.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 13eg am 8.00 y.h.
yn Neuadd Maesywaen.**